Chloe Cowles, 2205108, Learning in the Digital Era (ECGE4005P/C)

## Cyflwyniad

Mae Cottrell (2017) yn disgrifio Meddwl yn Feirniadol fel proses o werthuso a dadansoddi wrth lunio barn a chwestiynu.
Mae tacsonomeg Bloom (1956) yn gasgliad o sgiliau sydd yn helpu myfyrwyr i feddwl yn feirniadol. Mae y chwech sgil gwahanol hyn wedi eu grwpio gyda ei gilydd i chwalu y syniad o feddwl yn feirniadol, a dangos i fyfyrwyr y camau y mae rhaid iddynt eu hystyried a chymryd i ddod yn feddyliwr beirniadol da.
Yn debyg i eraill mae dacsonomeg Bloom yn defnyddio yr un strategaeth trwy y triongl, mae yr lefelau uwch yn sgiliau cynrychioli sgiliau lefel uwch, a y lefelau is sydd yn cynrychioli sgiliau meddwl lefel is.



Ffynhonnell: Clker, dim dyddiau

## Cymryd nodiadau

Trwy gydol astudio am radd yn y Brifysgol, mae myfyrwyr yn mynychu cannoedd o ddarlithoedd. Yn y darlithoedd hyn mae myfyrwyr yn dod i sylwi bod cymryd nodiadau yn sgil hanfodol i Brifysgol. Mae Mcmillan (2012) yn awgrymu bod cymryd nodiadau yn helpu myfyrwyr i gadw eu hastudiaethau wedi eu trefnu a fydd yn helpu myfyrwyr i cofio gwybodaeth neu ddeunydd o ddarlithoedd mewn ffordd ddealladwy i baratoi yn barod ar gyfer adolygu i arholiadau. Pan fydd myfyrwyr yn cymryd nodiadau o eu hymchwil, mae e yn wahanol o gymryd nodiadau yn y darlithoedd, achos mae gan fyfyrwyr fwy o amser i ystyried eu harddulliau dysgu a meddwl am ba osodiad sydd yn well iddyn nhw fel unigolyn, a pa ffordd sydd yn adlewyrchu eu dealltwriaeth orau. Tra mewn darlithoedd, nid oes gan fyfyrwyr lawer o amser i fyfyrio wrth wrando ar y darlithwyr, maen nhw o dan bwysau i gymryd nodiadau o y deunydd mewn cyfnod penodol o amser. Mae Mcmillan (2012) yn cynghori bod hyblygrwydd wrth gymryd nodiadau yn bwysig, gan fydd ddarlithwyr gwahanol gydag arddulliau cyflwyno gwahanol. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn gallu addasu eu nodiadau i bob arddull o gyflwyno. Mae Mcmillan (2012) yn rhannu llawer o strategaethau i gymryd nodiadau effeithiol ar gyfer amrywiaeth o arddulliau dysgu, gall myfyrwyr eu defnyddio ar gyfer eu hastudiaethau. Rhai ohonynt oedd fapiau meddwl, nodiadau llinol, a nodiadau matrics. Gwnaeth Moore, S. *et. al.* (2010) hefyd rhannu effeithiolrwydd nodiadau gweledol wrth astudio, er enghraifft nodiadau aflinol megis mapiau meddwl, sydd hefyd yn ddefnyddiol i fyfyrwyr. Mae y technegau gwahanol yma yn galluogi myfyrwyr i gymryd nodiadau mewn ffordd drefnus a strategol, a fydd yn eu helpu galw i gof y deunydd darlithoedd yn effeithiol ar gyfer arholiadau yn y dyfodol neu aseiniadau. Mae Mcmillan (2012) yn trafod ffordd effeithiol i fyfyrwyr wneud eu nodiadau yn fwy cynhwysfawr trwy ddefnyddio a lawr lwytho deunydd a ddosbarthwyd gan ddarlithwyr er enghraifft cyflwyniadau PowerPoint digidol a ddangoswyd yn ystod y ddarlith neu daflenni wnaeth gael ei darparu. Mae rhai myfyrwyr yn gweld bod cymryd nodiadau pellach ar ôl y ddarlith yn ffordd effeithiol sydd yn helpu i nhw gofio deunydd pwysig ac anodi ymhelaethu ar eu nodiadau darlith.

## Dysgu Myfyriol

Mae Day (2018) yn cydnabod bod ysgrifennu myfyriol yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o ddiwydiannau, er enghraifft astudiaethau addysg, ond hefyd y Cyfryngau, Pensaernïaeth, Peirianneg ac eraill.
Gall Myfyrdod Beirniadol helpu i adeiladu beth mae yr unigolyn wedi ei ddysgu o blaen a beth gallen nhw rhoi cynig i sydd yn newydd iddo ar gyfer ei ddatblygiad personol.
Mae dysgu myfyriol yn sgil ddefnyddiol i fyfyrwyr prifysgol. Mae e yn caniatáu ac yn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau hanfodol eraill er enghraifft Meddwl yn Feirniadol, ond hefyd yn helpu myfyrwyr i wella a datblygu trwy fyfyrio a dysgu o eu profiadau, yn negyddol ac yn bositif.
Mae Tanguay (2020) yn cynghori gall myfyrwyr fyfyrio ar eu brofiadau blaenorol, a thrwy eu hastudiaethau gallen nhw gymhwyso beth mae nhw yn dysgu yn y Brifysgol i ymarfer, a nodi beth gallen nhw wneud yn wahanol y tro nesaf i wella. Yn ogystal â nodi gwendidau, mae e yn bwysig nodi yr hyn a weithiodd yn dda a nodi eu cryfderau.
Gall myfyrio ar ymarfer helpu unigolion i ddatblygu nid yn unig fel myfyriwr ond fel ymarferydd hefyd. Mae e yn bwysig meddwl yn feirniadol wrth fyfyrio ar astudiaethau ac ymarfer, gan ofyn sut? a pham? Beth gall unigolion wella arno nesaf?
Mae dysgu adfyfyriol yn gallu helpu myfyrwyr i wella sgiliau eraill fel sgiliau datrys problemau trwy brofi a methu, ac yn helpu myfyrwyr i ddysgu o brofiadau negyddol. Yn ogystal, helpu myfyrwyr i ddatblygu eu hunanymwybyddiaeth a magu hyder wrth astudio ac ymarfer.
Schon's (1983) Mae myfyrio ar waith yn gysyniad a fydd yn golygu bod unigolyn yn myfyrio ar ei ymarfer ar adeg y sefyllfa. Felly, bydd yr ymarferydd yn dysgu yn fyfyriol wrth ymarfer, ac yn meddwl yn gyflym. Trafododd Schon (1983) bwysigrwydd trafod y sefyllfa drwyddi gyda goruchwyliwr neu ysgrifennu beth ddigwyddodd lan. Mae y strategaethau yma yn rhoi amser i yr unigolyn fyfyrio ar y camau gweithredu a dadansoddi y sefyllfa, gan archwilio beth gallen nhw wneud yn wahanol neu beth cafodd ei gyflawni yn dda, gan ymgysylltu yn llawn gyda y sefyllfa, adeiladu gwybodaeth a ddealltwriaeth i ddysgu a gwella.

Sgiliau sydd yn dylanwadu yr datblygiad o Meddwl yn Feirniadol.



(Ffynhonell: Loates Management Training, dim dyddiad)

## Rheoli amser

Mae rheoli amser yn sgil hanfodol i fyfyrwyr prifysgol, wrth i astudio yn annibynnol ddod yn rhan fawr o brifysgol. Rheoli amser yw yr cyfrifoldeb bydd myfyrwyr yn ei ddysgu i weithio yn gynhyrchiol, a meddwl yn feirniadol i gynllunio a threfnu eu hamser yn effeithiol i gwrdd â therfynau amser. Mae angen meddwl yn feirniadol er mwyn i fyfyrwyr benderfynu sut a beth i flaenoriaethu, ddileu neu gohirio, i gyflawni rheolaeth amser effeithiol. Mae Cottrell (2019) yn awgrymu bod cydberthynas gryf rhwng rheoli amser a llwyddiant wrth astudio. Gall rheoli amser yn dda roi mwy o hyder i fyfyrwyr yn eu hastudiaethau/dysgu. Er mwyn cynnal rheolaeth amser da, mae rhaid i fyfyrwyr ystyried gofynion amser astudio, terfynau amser, ymrwymiadau cyfredol, ond hefyd cadw amser ar gyfer gweithgareddau mae nhw eisiau gwneud i deimlo eu bod yn rheoli eu hamser eu hunain. Mae Bedford a Wilson (2009) yn trafod ac yn cytuno mae y syniad tu ôl rheoli amser yw, i rheoli y straen o bethau sydd yn tynnu sylw neu yn gohirio eu haseiniadau, fel bod myfyrwyr yn teimlo bod ganddynt rheolaeth dros eu hamser a gallant fod â mwy o hyder yn eu hastudiaethau. Mae Cottrell yn trafod heriau rheoli amser fel myfyriwr. Wrth drefnu a blaenoriaethu amser, mae myfyrwyr yn profi gofynion ar eu bywydau cymdeithasol, er enghraifft amser o ansawdd a dreulir gyda theulu a ffrindiau. Mae yna lawer o ddulliau a strategaethau effeithiol i gynorthwyo myfyrwyr i reoli eu hamser yn effeithiol i gynllunio a threfnu eu hastudiaethau. Mae Cottrell (2019) yn rhannu un strategaeth effeithiol ar rheoli amser, sef y deg cam i rheoli amser yn effeithlon. Un agwedd yw bod yn systematig. Helpu myfyrwyr i gynllunio eu hamser yn effeithlon, ac i fod yn systematig wrth ddeall sut maent yn defnyddio eu hamser, ond hefyd i fod yn realistig a chael llwyddiant trwy flaenoriaethu astudiaethau. Dywedodd Cottrell (2019) ffordd effeithiol i fyfyrwyr rheoli eu hamser ac eu terfynau amser yw trwy ddefnyddio dyddiadur neu siwrnal manwl i fonitro, cynllunio a helpu i bennu faint o amser astudio sydd ei angen i gwrdd a eu terfynau amser i aros ar y targed. Mae Bedford a Wilson (2009) yn cytuno ac yn trafod mae strategaeth effeithiol i fyfyrwyr gynllunio eu hamser yw trwy ddefnyddio amserlen neu ddyddiadur i drefnu eu hamser yn effeithiol trwy flaenoriaethu astudiaethau a darlithoedd, ond hefyd cofio a cadw cydbwysedd, a hefyd chynnwys amser o ansawdd gyda ffrindiau a theulu. Dywedodd Cottrell (2019) ei bod yn bwysig cynnal cydbwysedd astudiaeth bywyd. Mae Cottrell (2019) yn awgrymu gall myfyrwyr wynebu anawsterau i aros ar dasg, er enghraifft os mae nhw'n dod o hyd i bethau sydd yn amharu ar eu hamser astudio, gan ei gwneud hi yn anodd canolbwyntio ac felly yn colli eu rheolaeth amser, ac o bosibl cwympo tŷ ôl. Mewn llawer o fusnesau mae damcaniaethau Covey *et al.* (1994) am rheoli amser yn ystyried y pedwar cwadrant, ac wedi bod o ddylanwad mawr. Gall y dylanwadau hyn fod yn gysylltiedig oherwydd bod busnes ac astudio yn flaenoriaethau mewn bywyd. Felly, gall y cysyniad hwn o'r pedwar cwadrant fod yn strategaeth effeithiol i fyfyrwyr gynllunio a rheoli eu hamser yn effeithlon ar gyfer eu llwyddiant mewn astudiaethau. Mae Bedford a Wilson (2009) hefyd yn trafod pwysigrwydd cynllunio a threfnu amser yn effeithlon. Maent yn awgrymu bod tasgau yn dod yn rhai taer trwy gynllunio aneffeithlon neu oedi, a phan mae myfyrwyr yn rhedeg allan o amser cyn terfynau amser nid yw rheolaeth amser wedi bod yn effeithlon, ond trwy flaenoriaethu tasgau pwysig gall myfyrwyr rheoli eu sefyllfa, ac yn raddol mae yr angen am daer yn lleihau trwy ddefnyddio rheoli amser yn effeithiol.

**Dyma rhai enghreifftiau gwahanol o gymryd nodiadau:**

- Nodiadau aflinol - Mapiau meddwl


(Ffynhonell: mind meister, dim dyddiad)

- Nodiadau llinellol - Nodiadau amlinellol


(Ffynhonell: Chloe Burroughs, 2016)

- Nodiadau matrics - Fformat tabl


(Ffynhonell: Oregon State University, dim dyddiad)


(Ffynhonell: Bright concept, 2022)

## Casgliad

Beth yw Meddwl yn Feirniadol?
Yn gyffredinol, mae e yn broses o gymryd ffeithiau, tystiolaeth, a sylwadau er mwyn dod i gasgliad gwybodus ynghylch pwnc.
Er mwyn meddwl yn feirniadol bydd angen i y myfyriwr edrych ar yr holl wybodaeth a gasglwyd heb ragfarn, ond gyda pharodrwydd i gwestiynu y wybodaeth sydd ar gael.
Felly, fel y dangosir, credaf fod y sgiliau a drafodwyd uchod, Cymryd Nodiadau, Dysgu Myfyriol a Rheoli Amser i gyd yn elfennau hanfodol sydd eu hangen ar bob myfyriwr prifysgol er mwyn cyflawni 'MEDDWL BEIRNIADOL EFFEITHIOL'.

# Rhestr gyfeirio


Bright Concept (2022) *Critical Thinking image* [delwedd digidol]. Ar gael yn: https://www.brightconcept-consulting.com/en/blog/leadership/how-to-develop-the-7-skills-of-critical-thinking (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Burroughs, C. (2016) *Linear notes image* [delwedd digidol]. Ar gael yn: https://chloeburroughs.com/choose-best-note-taking-method/ (Cyrchwyd: 23 Medi 2022)

Clker (dim dyddiad) *Clipart Blue Pencil* [delwedd digidol]. Ar gael yn: http://www.clker.com/clipart-blue-pencil-1.html (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Clker (dim dyddiad) *Clipart Green Pencil* [delwedd digidol]. Ar gael yn: http://www.clker.com/clipart-green-pencil-1.html (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Clker (dim dyddiad) *Clipart Orange Pencil* [delwedd digidol]. Ar gael yn: http://www.clker.com/clipart-orange-pencil-1.html (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Clker (dim dyddiad) *Clipart Purple Pencil* [delwedd digidol]. Ar gael yn: http://www.clker.com/clipart-purple-pencil-7.html (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Clker (dim dyddiad) Clipart Red Pencil [delwedd digidol]. Ar gael yn: http://www.clker.com/clipart-red-pencil.html (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Clker (dim dyddiad) *Clipart Yellow Pencil* [delwedd digidol]. Ar gael yn: http://www.clker.com/clipart-yellow-pencil-1.html (Cyrchwyd: 21 Medi 2022)

Cottrell, S. (2017) Critical Thinking Skills : Effective Analysis, Argument and Reflection. 3rd edn. London: Palgrave.

Cottrell, S. (2019) *The Study Skills Handbook.* 5th edn. London: Red Globe Press.

Day, T. (2018) *Success in Academic Writing.* 2nd edn. London: Palgrave.

Infed (2001) '*Donald Schon: Learning. Reflection and change*'. Ar gael yn: http://infed.org/mobi/donald-schon-learning-reflection-change (Cyrchwyd: 25 Medi 2022)

Loates Management Training (dim dyddiad) *4 quadrants image* [delwedd digidol]. Ar gael yn: https://loatestraining.net/stephen-coveys-four-quadrants/ (Cyrchwyd : 19 Medi 2022)

McMillan, K. and Weyers, J. (2012) *The Study Skills Book*. 3rd edn. England: Pearson Education Ltd.

Mind Meister (dim dyddiad) Mind map image [delwedd digidol]. Ar gael yn: https://www.mindmeister.com/blog/students-guide-to-mind-mapping/ (Cyrchwyd : 23 Medi 2022)

Moore, S. *et. al.* (2010) *The Ultimate Study Skills Handbook*. England: Open university Press.

Oregon State University (dim dyddiad) *Matrix notes image* [delwedd digidol]. Ar gael yn: https://success.oregonstate.edu/note-taking-101 (Cyrchwyd : 23 Medi 2022)

Tanguay, E., Hanratty, P. and Martin B. (2020) *Reflective Writing for Nursing, Health and Social Work*. London: Red Globe Press.

Using Bloom's Taxonomy to Write Effective Learning Outcomes (2018). Ar gael yn: https://tips.uark.edu/using-blooms-taxonomy/ (Cyrchwyd: 23 Medi 2022).

Wilson, E. and Bedford, D. (2009) *Study skills for part-time students*. England: Pearson Education Ltd.


